

# Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 17 Medi 2018

Amser: 14.30 – 15.20

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

<http://senedd.tv/cy/5004>

## Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Mick Antoniw AC (Cadeirydd) Dai Lloyd AC David Melding AC
Tystion:	
Staff y Pwyllgor:	P Gareth Williams (Clerc) Sarah Sargent (Ail Clerc) Mike Lewis (Dirprwy Clerc) Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mandy Jones AC.



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

## **2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3**

**2.1 SL(5)238 – Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) (Diwygio) 2018**

**2.2 SL(5)244 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) (Diwygio) 2018**

**2.3 SL(5)245 – Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhad Adfer Safle) (Diwygio) 2018**

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## **3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**3.1 SL(5)237 – Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2018**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**3.2 Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 3) 2018**

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd. Nododd y Pwyllgor fod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at ymgynghoriad a wnaed, ond nid oes crynodeb o'r ymgynghoriad ar gael. Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn am eglurhad.

**3.3 SL(5)240 – Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb y Llywodraeth a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Nododd y Pwyllgor fod y Llywodraeth yn datgan yn ei hymateb nad oes newid polisi, fodd bynnag, dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mewn perthynas â rheoliadau 8 a 9, fod y rheoliad wedi

cael ei wneud yn fwy caniatool. Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn am eglurhad.

#### **3.4 SL(5)248 – Rheoliadau Bwyd a Materion Gwledig (Dirymiadau Amrywiol) 2018**

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd. Tynnodd y Pwyllgor sylw at y ffaith nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at pam y gwneir yr offeryn yn Saesneg yn unig. Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig i ofyn am eglurhad.

### **4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 27**

#### **4.1 SL(5)246 – Cod Ymarfer ar gyfer Lles Cŵn**

#### **4.2 SL(5)247 – Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ceffylau**

Trafododd y Pwyllgor y Codau Ymarfer a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad i dynnu sylw at y materion sy'n ymwneud â'r DU yn ymadael â'r UE.

### **5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE**

#### **5.1 SL(5)241 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018**

#### **5.2 SL(5)242 – Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfirwyr at Gostau Byw (Cymru) 2018**

#### **5.3 SL(5)251 – Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2018**

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad i dynnu sylw at y materion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

## **6 Offerynnau statudol y mae angen i'r Cynulliad gydsynio â hwy (Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol)**

### **6.1 SICM(5)3 – Rheoliadau'r Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiadau a Dirymiadau Amrywiol) 2018**

Ystyriodd y Pwyllgor y Memorandwm Caniatâd Offeryn Statudol ac, o dan yr amgylchiadau, roedd yn fodlon gyda'r dull a fabwysiadwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

## **7 Papurau i'w nodi**

### **7.1 Llythyr at y Llywydd gan y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol ynghylch y Bil Cyllido Gofal Plant (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor y llythyr at y Llywydd ynghyd â'r llythyr a gafwyd gan y Gweinidog yn gynharach y diwrnod hwnnw (wedi'i gylchredeg mewn copi caled) mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor. Nododd yr aelodau fod y ddadl Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil wedi'i threfnu ar gyfer y diwrnod canlynol, sef 18 Medi. Cytunodd yr Aelodau pe bai ystyriaeth bellach y Gweinidog o argymhellion y Pwyllgor yn arwain at wneud newidiadau sylweddol i'r Bil, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y Bil ar adeg briodol.

### **7.2 Llythyr at Arweinydd y Tŷ ynghylch Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – rheoliadau a wneir o dan Atodlen 4**

Nododd y Pwyllgor y llythyr at Arweinydd y Tŷ ynglŷn â rheoliadau Atodlen 4 ac ymateb gan Arweinydd y Tŷ a gafwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw (wedi'i gylchredeg mewn copi caled).

### **7.3 Llythyr gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ynghylch rheoliadau a wneir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Arweinydd y Tŷ.

#### **7.4 Llythyr gan Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ynghylch rheoliadau a wneir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Arweinydd y Tŷ, a chytunodd i ymateb i Arweinydd y Tŷ maes o law.

#### **7.5 Gohebiaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch Concordat gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru**

Nododd y Pwyllgor ohebiaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i ofyn am gopi o'r canllawiau cyfatebol unwaith y cânt eu cwblhau.

#### **7.6 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Cyfnod Pontio Brexit**

Nododd y Pwyllgor lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol. Cytunodd y Pwyllgor i anfon copi o'r Cytundeb Rhyng-Sefydliadol drafft y mae'n ei ddatblygu gyda Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

#### **7.7 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Trawsnewid System Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

#### **7.8 Llythyr gan y Llywydd at Gadeiryddion Pwyllgorau: Senedd@**

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd.

#### **7.9 Datganiad Ysgrifenedig a Thystiolaeth Ategol Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r dystiolaeth atodol i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.

## **7.10 Cymdeithas Frenhinol Caeredin – Papur cyngori Awst 2018: Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban Fframweithiau Cyffredin y DU**

Nododd y Pwyllgor y papur cyngori gan Gymdeithas Frenhinol Caeredin.

## **7.11 Datganiadau: Cyflwyno Bil Amaethyddiaeth y DU**

Nododd y Pwyllgor y datganiadau a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig.

## **7.12 Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor: Craffu ar Reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Materion Gweithredol**

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## **8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:**

Derbyniwyd y cynnig.

## **9 Protocol Drafft gyda Llywodraeth Cymru – Craffu ar Reoliadau a wneir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**

Ystyriodd y Pwyllgor y protocol drafft a chytunodd ar y camau nesaf.

## **10 Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU y mae arnynt angen Cydsyniad y Cynulliad: arfer yn sgil Brexit**

Ystyriodd y Pwyllgor y dull a fabwysiadwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Memoranda Caniatâd Offerynnau Statudol sy'n ymwneud â deddfwriaeth Brexit a chytunodd arno.

## **11 Deddfu ar gyfer y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE: Diweddariad**

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf.

## **12 Adroddiad gan Bwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin – Crynodeb**

Ystyriodd y Pwyllgor y crynodeb.

## 13 Blaenraglen Waith

Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor yr hydref.